Calch

Craig waddod yw calchfaen, sydd wedi'i gwneud o galsiwm carbonad ($CaCO_3$) yn bennaf. Fe'i ffurfiwyd yng ngwaelod y môr oddeutu 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Mae llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o galchfaen mewn diwydiant, ac fel carreg adeiladu.

Pan fydd calchfaen yn cael ei gynhesu mewn odyn, mae'r calsiwm carbonad yn dadelfennu yn galsiwm ocsid a charbon deuocsid. Yr enw ar y math hwn o adwaith yw dadelfennu thermol. Gelwir y broses yn galchynnu. Unwaith y bydd calchfaen sydd wedi'i losgi yn troi'n galsiwm ocsid, fe'i gelwir yn galch brwd.

Mae calch brwd yn adweithio gyda dŵr i gynhyrchu calsiwm hydrocsid, sy'n cael ei alw'n galch tawdd hefyd. Defnyddir calch tawdd i leihau asidedd pridd, sy'n helpu i gynyddu ei ffrwythlondeb. Mae llawer o ddefnydd yn cael ei wneud ohono fel deunydd adeiladu hefyd. Mae calch tawdd yn ail-amsugno carbon deuocsid o'r aer yn raddol ac yn troi'n galsiwm carbonad unwaith eto.

CALCHFAEN (Calsiwm carbonad)

GWRES

CALCH BRWD (Calsiwm ocsid)

CO2 (Carbon deuocsid) yn cael ei golli

Dŵr

CALCH TAWDD (Calsiwm hydrocsid)

Cronfa Datblygu Cynaliadwy Sustainable Development Fund
Canolfan y Mynydd Du Black Mountain Centre
ymddiriedolaeth archaeolegol DYFED archaeological trust
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
National Waterfront Museum